Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

## Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2022

## Cefndir

**1.** Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i *'Brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol'*, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu.

**2.** Roedd y rhaglen ymgysylltu yn amrywiol, ac roedd yn cynnwys y canlynol:-

- Carchar EF, Swydd Gaer: Taith o amgylch y carchar, grŵp ffocws gyda charcharorion benywaidd o Gymru, cyfarfod â'r Llywodraethwr a thrafodaeth un i un â charcharor benywaidd o Gymru.
- Carchar EF Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw: Cyfarfod â'r Llywodraethwr a grŵp ffocws gyda charcharorion benywaidd o Gymru;
- Grŵp ffocws gyda Fforwm Menywod Revolving Doors; a
- Grŵp ffocws gydag Ymddiriedolaeth Nelson yng Nghaerdydd.

**3.** Cynhaliwyd y gwaith ymgynghori rhwng mis 31 Hydref a 7 Tachwedd 2022.

**4.** Bydd y papur hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y themâu a gododd yn ystod trafodaethau grŵp ffocws gyda charcharorion benywaidd o Gymru. Mae nodiadau o'r trafodaethau ar gael ar gais.

## Cyfranwyr

**5.** Roedd cyfansoddiad y grwpiau ffocws yn amrywio ac yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-

- Menywod sydd yn y carchar ar hyn o bryd a menywod a ryddhawyd ers y trafodaethau;
- Menywod a oedd yn y carchar, neu wedi cwblhau dedfryd o garchar am gyfnodau amrywiol;
- Troseddwyr mynych;
- Menywod â phroblemau camddefnyddio sylweddau;
- Mamau;
- Menywod â statws mewnfudo ansicr;
- Menywod a oedd yn siarad Cymraeg.

**6.** Cafwyd hyd i'r cyfranogwyr gyda chymorth Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Revolving Doors ac Ymddiriedolaeth Nelson.

**7.** Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

## Fformat

**8.** Cynhaliwyd tri grŵp ffocws wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd dau yng Ngharchar EF Eastwood Park a Charchar EF Styal, yn y drefn honno, a'r trydydd yn Ymddiriedolaeth Nelson, Caerdydd. Cynhaliwyd un grŵp ffocws ar-lein ar Microsoft Teams.

**9.** Roedd fformat y sesiynau'n gymharol debyg, ond roeddent yn amrywio rhyw ychydig yn ôl anghenion y cyfranogwyr.

**10.** Roedd aelodau o staff y carchardai a'r sefydliadau perthnasol yn bresennol yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws, neu yn ystod rhan o'r trafodaethau. Roedd hyn yn angenrheidiol weithiau oherwydd rhesymau diogelwch a/neu i helpu'r cyfranwyr i gymryd rhan. Yn y trafodaethau, rhoddwyd cryn dipyn o sylw i'r gwasanaethau a'r cymorth a gynigwyd yn y ddalfa i wahanol grwpiau o fenywod. Roedd y rhain yn cael eu darparu'n rhannol gan rai o'r staff a oedd yn bresennol ar gyfer y trafodaethau. Er y gallai fod yn besimistaidd tybio y byddai'r cyfranwyr wedi rhoi safbwyntiau gwahanol neu wedi siarad yn fwy agored pe na bai'r staff yn bresennol, byddai'n ddoeth cofio am yr amgylchiadau hyn wrth ystyried eu tystiolaeth.

**11.** Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg yn sgil y trafodaethau.

## Diffyg cymorth cychwynnol

Wrth drafod eu profiadau yn y carchar, soniodd nifer o'r rhai a gymerodd ran yn y rhaglen ymgysylltu am y cymorth (neu'r diffyg cymorth) a gawsant ar ôl cyrraedd y carchar gan ddweud bod hyn yn gryn broblem. Roedd eu sylwadau am y cymorth a gawsant yn negyddol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn egluro na chawsant ddim, neu prin ddim, gwybodaeth ar ôl cyrraedd y carchar.

Esboniodd un cyfrannwr, sydd yn y carchar ar hyn o bryd, fod tair wythnos wedi mynd heibio cyn iddi gael sesiynau cynefino ffurfiol. Soniodd cyfranwyr eraill hefyd am y diffyg cymorth cychwynnol hwn. Mae rhai o'r cyfranwyr hyn wedi'u rhyddhau yn awr. Y ffordd fwyaf cyffredin o gael gwybod am y cymorth a allai fod ar gael oedd drwy glywed amdano gan eu cyd-garcharorion.

> *"Roedden nhw'n arfer paratoi llyfryn cynefino. Byddai taflen y ffreutur, stwff am addysg a chaplaniaeth i gyd ar gael mewn pamffled. Rwy'n ddyslecsig, felly i mi, doedd hynny'n fawr o help. Roeddwn i'n lwcus eu bod wedi sylwi ac mi lwyddais i basio fy Saesneg yn y carchar. . . ond pan gyrhaeddais yno, nid oedd gen i syniad sut i lenwi taflen y ffreutur. Doedd dim staff i'ch helpu chi, y merched wnaeth fy helpu i."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

Eglurodd rhai o'r cyfranwyr y dylid sicrhau bod lefel sylfaenol, gychwynnol o gymorth ar gael i fenywod unwaith y bydd dedfryd o garchar wedi'i chadarnhau. Disgrifiwyd y cyfnod rhwng cael dedfryd o garchar a chyrraedd y carchar fel un gofidus iawn i lawer, ac eglurodd rhai bod y prinder gwybodaeth yn dwysau'r gofid.

> *"Mae angen rhyw fath o linell gymorth i roi gwybod beth sydd ei angen arnyn nhw (carcharorion) cyn mynd i'r carchar; beth sydd ar gael iddyn nhw. . . Rydych yn dychmygu cymaint cyn mynd i'r carchar am y profiadau sy'n eich wynebu. Rydych chi wedi'ch parlysu gan ofn. Allan nhw ddim sôn am bob manylyn, ond byddai rhywfaint o wybodaeth yn ddefnyddiol, oherwydd mae'n ofnadwy cyn i chi gyrraedd. Mae'n wael."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

## Adnoddau staff

Wrth drafod y rhesymau posibl am y diffyg cymorth a/neu wybodaeth ar ôl cyrraedd y carchar, yn ogystal ag yn fwy cyffredinol yn ystod eu cyfnod yn y carchar, dywedodd llawer o'r cyfranwyr eu bod yn sylweddoli bod prinder staff yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau a oedd ar gael. Dyna ddywedodd rhai aelodau o staff Carchar EF Eastwood Park a Charchar EF Styal hefyd yn ystod eu sgyrsiau â ni.

Roedd sylwadau negyddol y cyfranwyr yn wahanol i'r hyn ddywedodd y Llywodraethwr yn un o'r carchardai. Eglurodd fod gwybodaeth ar gael i bawb wrth iddynt gyrraedd y carchar, a thra bod y llyfryn cynefino'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae'r carchar yn ceisio personoli ei rhaglen gynefino yn ôl anghenion y carcharorion cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Esboniodd fod menywod sy'n cyrraedd y carchar yn amrywio o ran eu gallu i brosesu gwybodaeth, gan ychwanegu y gall gormod o wybodaeth fod yn llethol pan fyddant wrthi'n ceisio addasu i fywyd yn y carchar.

## Gwasanaethau i fenywod yn ystod eu cyfnod yn y carchar

Roedd sylwadau'r cyfranwyr am y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt yn ystod eu cyfnod yn y carchar (roedd rhai ohonynt ar ganol eu dedfryd), yn amrywio gan ddibynnu ar natur y gwasanaeth dan sylw.

Roedd gan rai cyfranwyr sylwadau cadarnhaol ar y cyfan am y gwasanaethau a gawsant tra oeddent yn y carchar, ac roeddent yn priodoli eu gallu i drawsnewid eu bywydau i'r gwasanaethau hynny.

Soniodd un cyfrannwr am y modd y dysgodd ddarllen ac ysgrifennu tra oedd yn y carchar, gan ddweud mai hyn oedd *"yr unig beth da."* Eglurodd cyfrannwr arall ei bod wedi dilyn amrywiaeth o gyrsiau tra oedd yn y carchar, gan gynnwys cwrs profedigaeth, cwrs newid patrwm a chwrs rheoli dicter. Eglurodd hefyd ei bod wedi colli dros dair stôn yn y carchar.

> *"Pan gyrhaeddais i Eastwood Park, cefais sioc a braw. Yr hyn doeddwn i ddim yn ei wybod oedd yn codi ofn arna i. Nid oeddwn wedi gadael fy nghartref fy hun am chwe blynedd cyn dod yma. Roeddwn yn wynebu dedfryd o 15 mis. Doeddwn i ddim yn gwybod sut y byddwn i'n ymdopi. Roedd patrwm mor rheolaidd i fy mywyd ac roedd pob eiliad wedi'i gynllunio i mi gan na allwn wynebu pobl mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Yn ogystal â'r holl anawsterau meddyliol roeddwn i'n eu hwynebu, roeddwn fy iechyd hefyd yn wael*

> *ac roeddwn i'n pwyso dros 21 stôn. Rwy'n credu fod Duw wedi fy rhoi i yma am reswm, a hynny er mwyn gwella fy mywyd. Nid yn unig roedd angen i mi newid fy mywyd er mwyn fy nheulu, ond yn bwysicach fyth, er fy mwyn fy hun.*
>
> *Rwy'n annog pawb i fanteisio ar yr hyn y gall carchar ei gynnig i chi. Gall fod yn gyfle i chi ddeall eich hun yn well.  Mae'r gefnogaeth a gefais gan fenywod eraill hefyd wedi fy nhrawsnewid."*
>
> ***Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.***

## Gofal iechyd

Gofal iechyd yn y carchar oedd un gwasanaeth penodol yr oedd rhai cyfranwyr yn arbennig o feirniadol ohono.

> *"Rwy'n epileptig a phan gyrhaeddais gyntaf, ni chafodd fy meddyginiaeth ei sortio am rai dyddiau, ac roedd hyn yn fy mhoeni'n arw gan fy mod yn dueddol o gael ffitiau. Roedd yn rhaid i mi gysylltu â'r swyddogion i roi pwysau arnynt i roi fy meddyginiaeth i mi. Weithiau ni fyddai fy meddyginiaeth yn barod ar gyfer yr wythnos honno, felly byddai rhai dyddiau'n mynd heibio cyn i mi gael fy meddyginiaeth eto.*
>
> *Rwy'n deall bod prinder staff, ac mae llawer o fenywod yno. Cefais ychydig o ffitiau epileptig pan oeddwn i yn y carchar. Doedd y staff ddim yn gwybod digon am fy nghyflwr, felly pan gefais ffit, roeddent yn credu fy mod i'n cymryd cyffuriau ac aethant ati i droi popeth yn fy ystafell â'i ben i lawr.  Felly o ran addysg - o ran iechyd, roedd yn eithaf gwael i mi.*
>
> ***Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.***

Cawsom sylwadau gan nifer o gyfranwyr â phroblemau iechyd meddwl ynghylch y gwasanaethau a oedd ar gael i'w helpu.  Eglurodd un cyfrannwr ei bod wedi cael ei harestio yng Nghymru, ond roedd ei chofnodion meddygol yn cael eu cadw yn Lloegr. O ganlyniad, roedd problemau gyda'r cymorth a gafodd pan gafodd ei charcharu. Eglurodd ei bod yn dioddef o anhwylder deubegynol, ond nid oedd y barnwr yn ei chredu yn ystod ei gwrandawiad dedfrydu. Eglurodd ymhellach na chafodd ei hasesu ar gyfer ei hanghenion iechyd meddwl ar ôl

cyrraedd y carchar a gwrthodwyd iddi gael meddyginiaeth na chymorth gan y tîm iechyd meddwl i ddechrau.

> *"Rwy'n ddeubegynol ac mae gen i restr o broblemau iechyd meddwl…ac, yn y bôn, roedden nhw'n credu fy mod i'n dweud celwydd am y cyfan oherwydd doeddwn i ddim eisiau mynd i'r carchar. Felly cefais fy rhoi yn y carchar ac roedd gen i seicosis deubegynol difrifol iawn. Ni chefais unrhyw feddyginiaeth ac ni chefais fy asesu am fis."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

Soniodd cyfranwyr arall a oedd â phroblemau iechyd meddwl am yr anhawster a gafodd yn cael apwyntiad gyda gweithiwr iechyd meddwl neu nyrs. Un enghraifft oedd yr adeg pan wnaeth gais i newid ei meddyginiaeth drwy 'ap cyffredinol' y carchar. Eglurodd ei bod wedi cymryd tair wythnos i'r swyddogion ymateb i'w chais, ac erbyn hynny roedd ei hiechyd meddwl wedi dirywio.

> *"Oni bai am y merched, dydw i ddim yn gwybod beth fyddai wedi digwydd i mi."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

Wrth drafod darpariaeth gofal iechyd, esboniodd rhai cyfranwyr y bydd llawer o garcharorion sy'n camddefnyddio sylweddau'n cael problemau diddyfnu ar ôl cyrraedd y carchar oherwydd yr oedi cyn cael meddyginiaeth, a dywedodd un ohonynt fod angen methadon arni ond bu'n rhaid iddi aros. Roedd yn crynu drwyddo meddai hi tra oedd hi'n aros am y methadon.

Datblygodd un drafodaeth am ofal iechyd gydag un grŵp ffocws yn drafodaeth am iechyd a maeth yn fwy cyffredinol ac, yn benodol, safon y bwyd yn y carchar. Hwn oedd y peth gyntaf a gododd un cyfrannwr wrth drafod ansawdd gwasanaethau yn y carchar. Dywedodd aelodau o'r grŵp nad oeddent yn hoffi cig eidion mwyach na chig twrci a oedd â smotiau melyn.

> *"Mae gen i IBS. Roedd angen diet arbennig arna i. Roedd yn hunllef llwyr ceisio cael y gegin i baratoi bwyd addas i mi."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

*Roedd y bwyd yn ddychrynllyd. Rwy'n deall bod yna gyllideb y pen y dydd, ond roedd safon y bwyd o'i gymharu â'r bwyd a gefais mewn carchar agored yn ofnadwy."*

*Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

## Cynnal perthynas â'r teulu

Roedd cynnal perthynas â'r teulu yn ystod eu cyfnod yn y carchar yn bwnc a drafodwyd yn helaeth gan nifer o'r grwpiau ffocws, ac roedd llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i gynnal perthynas.

*"Byddai ymweliadau porffor yn rhyw fath o alwad Watsapp. Roedd yn ofnadwy! Roedd y signal yn ofnadwy a byddai'n rhewi'n aml. Byddai'n peri gofid i lawer o'r merched. Roedd rhai ohonyn nhw eisiau gweld eu plant a fyddai ganddyn nhw ddim cysylltiad."*

*Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

Dywedodd rhai cyfranwyr eu bod wedi cael credyd ychwanegol ar eu ffôn yn ystod y pandemig, ac roedd hynny'n cael ei ystyried yn gadarnhaol. Roedd cyfranwyr hefyd yn croesawu'r 'credyd brys' roedd carcharorion yn ei gael os oedd argyfwng yn codi gartref. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y modd roedd yn cael ei ddefnyddio. Nid oedd ceisiadau am gredyd brys yn cael eu caniatáu bob amser, ac roedd y trefniadau hyn wedi dod i ben mewn un carchar.

Soniodd nifer o gyfranwyr hefyd am yr effaith niweidiol roedd dedfryd o garchar wedi'i chael ar eu perthynas ag aelodau'r teulu a'u plant. Un o'r prif broblemau oedd y pellter a'r gost o deithio i'r carchar o Gymru.

*"Mae fy nheulu ar fudd-daliadau … sut allan nhw ddod i fyny yma"*

*Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd yn y carchar ar hyn o bryd.*

*"Byddai'n rhaid i fy mam dalu £150 i ymweld am awr"*

*Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd yn y carchar ar hyn o bryd.*

## Cymorth ar ôl eu rhyddhau

Wrth drafod y cymorth sydd ar gael i fenywod ar ôl eu rhyddhau, nodwyd mai llety oedd un o'r prif broblemau. Esboniodd nifer o gyfranwyr eu bod yn pryderu ynghylch ble y byddent yn byw ar ôl cael eu rhyddhau, ac yn ôl un cyfrannwr roedd fel "*cael ei thaflu i ganol y siarcod.*"

Yn ystod un grŵp ffocws, soniodd rhai o'r cyfranwyr at un enghraifft benodol pan anfonwyd un ferch yn ôl i'r llety gwely a brecwast lle'r oedd wedi cael ei churo'n ddulas yn flaenorol. Cafodd wybod am y trefniadau ychydig cyn gadael y carchar ac, yn ôl y cyfranwyr, roedd mewn cyflwr ofnadwy pan adawodd y carchar.

> *"Mae rhai o'r merched sydd wedi aildroseddu, wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn teimlo mai'r merched y tu mewn yw eu teulu. . . oherwydd does ganddyn nhw fawr ddim y tu allan."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*
>
> *"Mae gennych chi bopeth a dim byd ar yr un pryd. Mae gennych chi'ch rhyddid. . . ac rydych chi'n dod allan ac yn teimlo'n wych am wythnos neu ddwy, ond yna'n sydyn, mae popeth yn edrych yn ddu. Dydych chi byth yn meddwl y byddech chi'n teimlo fel yna."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

Esboniodd cyfranwyr sydd â phrofiad o gael eu rhyddhau o'r carchar mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd i fenywod unwaith y daw eu dedfryd i ben. Dywedodd rhai mai'r prif reswm eu bod wedi aildroseddu oedd y diffyg cymorth a gawsant ar ôl cael eu rhyddhau.

> *"Rwy'n teimlo y dylen ni, fel carcharorion, gael mwy o wasanaethau . . . Yn aml iawn byddaf yn meddwl, pam na alla' i fynd yn ôl? Roeddwn i'n ddiogel yno, roedd gen i bobl o'm cwmpas, roedd fy iechyd meddwl yn well. Fyddwn i byth wedi eistedd mewn grŵp o bobl fel hyn cyn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Nelson."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

Eglurodd un grŵp ffocws fod y cymorth a oedd ar gael ar ôl i fenywod ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn amrywio'n arw o un ardal awdurdod lleol i'r llall yng Nghymru. Dywedodd un cyfrannwr fod Tai yn Gyntaf Sir Ddinbych wedi dod i'w nôl hi ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r carchar, ond roedd menyw arall wedi cael trafferthion yn Wrecsam.

Wrth drafod cymorth i ailddechrau byw yn y gymuned, dywedodd un cyfrannwr y byddai'n cael ei rhyddhau ym mis Rhagfyr, ond nid oedd Cyngor Sir Ddinbych am roi llety iddi.  Eglurodd llawer o gyfranwyr hefyd mai dim ond ychydig ddyddiau cyn eu rhyddhau y byddai gwasanaethau'n cysylltu â nhw.

> *"Roeddwn i'n ffodus fy mod i wedi cael tri ROTL da (Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro). Dydw i ddim wedi bod mewn siop ers blynyddoedd. Sut ydw i'n mynd i ymdopi? Wnaeth y swyddog prawf ddim gwneud ei gwaith yn iawn, felly ni chefais fy ROTL i fy rhyddhau am ddiwrnod, ac felly ni chefais ddod adref am ddiwrnod i baratoi i gael fy rhyddhau. . . byddai wedi bod o fudd mawr i mi."*
>
> ***Cyfrannnwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.***

Wrth drafod y math o gymorth a ddylai fod ar gael i fenywod ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, cytunodd un grŵp ffocws y byddai'n fuddiol cael cyfle i ymgysylltu â menywod eraill sydd wedi bod yn y carchar.

> *"Un peth da rwy'n meddwl y dylid ei wneud, ond a fyddai'n  dibynnu ar asesiad risg mae'n debyg, yw rhoi cyfle i fenywod sydd newydd ddod allan o'r carchar eistedd gyda'i gilydd a mynd am baned ac ymddiried yn ei gilydd.   Rydych chi wedi rhannu'r un profiad bywyd, felly gallwch chi rannu awgrymiadau ynghylch dod o hyd i gymorth.*
>
> *Roeddwn yn agos at rywun yn y carchar a oedd yn gefn enfawr pan oeddwn yn y carchar agored. Gofynnais i fy swyddog prawf a allwn i fynd am goffi gyda hi ond chefais i ddim gwneud hynny oherwydd bod angen cynnal asesiad risg i weld a oes risg y byddwch chi'n aildroseddu os byddwch chi'n cymdeithasu yn y gymuned. Ond rhaid cofio'ch bod chi wedi meithrin perthynas gref gyda phobl, ac yna maen nhw wedi mynd. All neb uniaethu â chi oni bai eu bod wedi bod drwy'r un profiad eu hunain."*
>
> ***Cyfrannnwr grŵp ffocws, sydd wedi'i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.***

## Amrywiol

Cyfeiriodd y cyfranwyr at nifer o broblemau eraill a chawsant eu trafod i wahanol raddau.

### Statws mewnfudo

Soniodd un cyfrannwr, sy’n wreiddiol o Dde America, ac sydd wedi’i rhyddhau o’r carchar erbyn hyn, am y problemau a gafodd oherwydd ei statws mewnfudo ansicr. Esboniodd fod y prinder gwybodaeth mewn carchardai i gynorthwyo menywod gyda materion mewnfudo wedi peri gofid iddi ac wedi’i gadael mewn sefyllfa ansicr iawn.

> *“Fel tramorwr, ni allaf gael ROTL (fy rhyddhau ar drwydded dros dro). Hyd yn oed os yw'ch ymddygiad yn ddi-fai, ni chewch chi’r drwydded. Gallai’ch ymddygiad fod yn hunllefus, ond os ydych chi'n fenyw Brydeinig, fe gewch chi’n drwydded.  Does ganddyn nhw ddim syniad beth i’w wneud gyda thramorwyr.”*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, sydd wedi’i rhyddhau o'r carchar erbyn hyn.*

### Eitemau i’w prynu

Dywedodd cyfranwyr yn ystod un grŵp ffocws fod prinder eitemau i fenywod eu prynu yn y carchar. Roedd yr eitemau a oedd ar gael i'w prynu, fel sanau, fflip-fflops a sebon potel, i gyd yn eitemau ar gyfer dynion a phrin iawn oedd yr eitemau ar gyfer menywod.